# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 7 Tachwedd 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Pleidleisiau a Thrafodion
(93)

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd cwestiynau 1i 2, 4 i 9 a 11 a 12. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ôl. Trosglwyddwyd cwestiwn 10 i'w ateb yn ysgrifenedig. Atebwyd cwestiwn 12 gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Dechreuodd yr eitem am 14.07

Gofynnwyd cwestiynau 2 i 13. Tynnwyd cwestiynau 1 a 14 yn ôl.

### 3. Datganiad gan Peter Black: Cyflwyno Bil arfaethedig Aelod - Bil Safleoedd Rheoleiddiedig Cartrefi Symudol (Cymru)

Dechreuodd yr eitem am 14.48

### 4. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig

Dechreuodd yr eitem am 15.24

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5084 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn talu teyrnged i aberth ac ymrwymiad aruthrol y rheini sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog;

2. Yn mynegi pryder am ddiffyg cydlyniant a chapasiti gwasanaethau yng Nghymru i gefnogi cyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma ac yn nodi'r rôl y gall y trydydd sector ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau wedi'u cydlynu i gyn-filwyr;

3. Yn nodi canfyddiadau Adroddiad Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yn fanwl sefydlu canolfan breswyl yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr gydag anhwylder straen wedi trawma; ac

4. Yn cydnabod y rôl hanfodol y mae cofebion rhyfel yn ei chwarae wrth sicrhau nad yw aberth y bobl hynny sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog byth yn mynd yn angof, ac yn nodi pwysigrwydd gwarchod cofebion rhyfel yn rhan allweddol o dreftadaeth Cymru ac fel canolbwynt ar gyfer cofio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 21 | 41 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ym mhwynt 2, dileu popeth cyn 'rôl' a rhoi yn ei le: 'Yn nodi'r buddsoddiad diweddar a wnaed mewn gwasanaethau yng Nghymru i gynorthwyo cyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma, ac yn derbyn pa mor bwysig yw'r'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 20 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5084 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn talu teyrnged i aberth ac ymrwymiad aruthrol y rheini sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog;

2. Yn nodi'r buddsoddiad diweddar a wnaed mewn gwasanaethau yng Nghymru i gynorthwyo cyn-filwyr sy'n dioddef anhwylder straen wedi trawma, ac yn derbyn pa

mor bwysig yw'r rôl y gall y trydydd sector ei chwarae wrth ddarparu gwasanaethau wedi'u cydlynu i gyn-filwyr;

3. Yn nodi canfyddiadau Adroddiad Gofal Iechyd a Chymuned y Lluoedd Arfog yng Nghymru ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried yn fanwl sefydlu canolfan breswyl yng Nghymru ar gyfer cyn-filwyr gydag anhwylder straen wedi trawma; ac

4. Yn cydnabod y rôl hanfodol y mae cofebion rhyfel yn ei chwarae wrth sicrhau nad yw aberth y bobl hynny sydd wedi gwasanaethu yn ein Lluoedd Arfog byth yn mynd yn angof, ac yn nodi pwysigrwydd gwarchod cofebion rhyfel yn rhan allweddol o dreftadaeth Cymru ac fel canolbwynt ar gyfer cofio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 1 | 41 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**5. Dadl Plaid Cymru**

Dechreuodd yr eitem am 16.21

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5086 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod:

a) Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai partneriaethau gwella ysgolion rhanbarthol yw'r ateb ar gyfer mynd i'r afael â'r methiant systematig ym myd addysg;

b) y cynllun bandio ar gyfer ysgolion uwchradd wedi dynodi bod angen gwella ysgolion ym Mandiau 4 a 5 ar fyrder;

2. Yn gresynu nad oedd yr holl bartneriaethau gwella ysgolion rhanbarthol ar waith erbyn mis Medi 2012 fel yr addawyd; a

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod:

a) y consortia addysg rhanbarthol ar waith yn llawn cyn gynted â phosibl; a

b) bod yr ysgolion a roddwyd yn y bandiau is yn cael y cymorth angenrheidiol ar unwaith i fynd i'r afael â methiant systematig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | 0 | 35 | 41 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt 1 newydd ac ail-rifo yn unol â hynny:

Yn nodi'r gwaith pwysig y mae penaethiaid, athrawon a llywodraethwyr yn ei wneud o ddydd i ddydd i sicrhau'r addysg orau bosibl i'n plant.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 39 | 0 | 2 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Yn is-bwynt 1a, ar ôl 'partneriaethau gwella ysgolion rhanbarthol', ychwanegu ', ynghyd â'r diwygiadau addysgol eraill a gefnogir gan y cynllun gweithredu i wella ysgolion a lansiwyd yn ddiweddar a chydweithredu effeithiol ehangach rhwng gwasanaethau cyhoeddus,'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 14 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 1b, dileu popeth ar ôl 'ysgolion uwchradd,' a rhoi'r canlynol yn ei le:

yn ddiffygiol iawn, ac nad oes gan athrawon, rhieni na disgyblion hyder ynddo.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 27 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 19 | 40 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt 3 newydd ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro pam y methwyd â rhoi partneriaethau gwella ysgolion rhanbarthol ar waith cyn y dyddiad a bennwyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 21 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 – Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 3a, dileu popeth ar ôl 'rhanbarthol,' a rhoi'r canlynol yn ei le:

yn cynnwys ymgeiswyr o'r safon uchaf bosibl ac yn gwbl weithredol cyn gynted â phosibl ac, os nad yw hyn yn bosibl yn y chwe mis nesaf, bod rôl y consortia addysg rhanbarthol yn nyfodol system addysg Cymru yn cael ei hadolygu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 5 | 40 |

**Derbyniwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 –Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi sut y gallai gweithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn llwyddiannus gael effaith fuddiol ar gyrhaeddiad mewn ysgolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 24 | 6 | 10 | 40 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag ysgolion, athrawon a phartneriaethau gwella ysgolion i sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau posibl, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyflawni ei botensial.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 0 | 40 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod Llywodraeth Cymru wedi methu â gweithredu pecyn cymorth helaeth a gwahaniaethol ar gyfer ysgolion uwchradd ym Mandiau 4 a 5 y mae angen eu gwella ar frys.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 21 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad yw 96.5% o benaethiaid ysgolion cynradd yng Nghymru yn credu y bydd cynigion ar gyfer bandio ysgolion o fudd i'w hysgol, ac yn credu y gallai diffyg cefnogaeth o'r fath gan y sector i un o bolisïau allweddol Llywodraeth Cymru gael effaith negyddol ar unrhyw agenda i wella ysgolion.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 27 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5086 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r gwaith pwysig y mae penaethiaid, athrawon a llywodraethwyr yn ei wneud o ddydd i ddydd i sicrhau'r addysg orau bosibl i'n plant.

2. Yn nodi bod:

a) Llywodraeth Cymru wedi dynodi mai partneriaethau gwella ysgolion rhanbarthol ynghyd â'r diwygiadau addysgol eraill a gefnogir gan y cynllun gweithredu i wella ysgolion a lansiwyd yn ddiweddar a chydweithredu effeithiol ehangach rhwng gwasanaethau cyhoeddus yw'r ateb ar gyfer mynd i'r afael â'r methiant systematig ym myd addysg;

b) y cynllun bandio ar gyfer ysgolion uwchradd wedi dynodi bod angen gwella ysgolion ym Mandiau 4 a 5 ar fyrder;

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod:

a) y consortia addysg rhanbarthol yn cynnwys ymgeiswyr o'r safon uchaf bosibl ac yn gwbl weithredol cyn gynted â phosibl ac, os nad yw hyn yn bosibl yn y chwe mis nesaf, bod rôl y consortia addysg rhanbarthol yn nyfodol system addysg Cymru yn cael ei hadolygu.

b) bod yr ysgolion a roddwyd yn y bandiau is yn cael y cymorth angenrheidiol ar unwaith i fynd i'r afael â methiant systematig.

4. Yn nodi sut y gallai gweithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion yn llwyddiannus gael effaith fuddiol ar gyrhaeddiad mewn ysgolion.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag ysgolion, athrawon a phartneriaethau gwella ysgolion i sicrhau bod y Grant Amddifadedd Disgyblion yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau posibl, er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn gallu cyflawni ei botensial.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 6 | 41 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 6. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.17

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM5085 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a) nad yw Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, ar 31 Hydref 2012, wedi cytuno ar gyllideb gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13;

b) nad yw Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn gallu paratoi cynlluniau gwasanaeth priodol oherwydd diffyg eglurder ariannol; ac

c) am y pedwar mis diwethaf yn olynol, nid yw Gwasanaeth Ambiwlans Cymru wedi cyflawni ei darged Cymru gyfan lle mae ambiwlansys yn ymateb o fewn wyth munud i 65% o alwadau Categori A (lle mae bywyd yn y fantol).

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cytuno ar gyllideb gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 fel mater o frys;

b) amlinellu rôl Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o ran ad-drefnu'r gwasanaeth a'r effaith y gallai'r ad-drefnu hwnnw ei chael ar eu cyllideb a'u perfformiad;

c) asesu ar fyrder y cymorth sydd ar gael i Wasanaeth Ambiwlans Cymru fel y gall gyrraedd ei darged amser ymateb o 65% y cytunwyd arno; a

d) adolygu'r trefniadau ar fyrder lle mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, sef pwyllgor sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl Fyrddau Iechyd Lleol, yn gorfod cytuno ar gyllideb ar gyfer ymddiriedolaeth arall.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 31 | 41 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwynt 1.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 20 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 1a, dileu 'yw' a rhoi 'oedd' yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 19 | 0 | 21 | 40 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ym mhwynt 1b, dileu 'yw' a rhoi 'oedd' yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 21 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 2a.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gan fod gwelliant 4 wedi'i gynnig, caiff gwelliant 5 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu is-bwynt 2d a rhoi yn ei le:

Galw ar y Gweinidog i gymryd cyfrifoldeb dros osod cyllideb Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 21 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 2d a rhoi yn ei le: 'parhau i asesu'r trefniadau rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac ariannu cadarn yn dal ar waith.'

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 21 | 0 | 19 | 40 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r rôl hanfodol y mae Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn ei chwarae wrth gynorthwyo Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ymateb i achosion brys yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 8:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

**Derbyniwyd gwelliant 8.**

**Gwelliant 9 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru i gynllunio gofal brys a darparu digon o gyllid uniongyrchol i'r gwasanaethau hynny, er mwyn helpu Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i gyflawni ei amcanion allweddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 21 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 9.**

**Gwelliant 10 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod GIG Cymru yn wynebu'r toriadau iechyd termau real mwyaf o holl wledydd y DU, ac y gallai hyn gael effaith andwyol ar Wasanaeth Ambiwlans Cymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 10:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 6 | 25 | 41 |

**Gwrthodwyd gwelliant 10.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:

**NDM5085 Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) amlinellu rôl Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru o ran ad-drefnu'r gwasanaeth a'r effaith y gallai'r ad-drefnu hwnnw ei chael ar eu cyllideb a'u perfformiad;

b) asesu ar fyrder y cymorth sydd ar gael i Wasanaeth Ambiwlans Cymru fel y gall gyrraedd ei darged amser ymateb o 65% y cytunwyd arno; a

c) parhau i asesu'r trefniadau rhwng Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu ac ariannu cadarn yn dal ar waith.

2. Yn nodi'r rôl hanfodol y mae Gwasanaeth Ambiwlans Awyr Cymru yn ei chwarae wrth gynorthwyo Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ymateb i achosion brys yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 31 | 0 | 10 | 41 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 18.08

**7. Dadl Fer: GOHIRWYD tan 28 Tachwedd**

Daeth y cyfarfod i ben am 18:20

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2012